Mis Plannu a Rhannu

# Garddio mewn Mannau Trefol

Mae mannau gwyrdd trefol yn hanfodol i greu ecosystem unedig ac os byddwch yn byw mewn trefi a dinasoedd mae darn bach gwyrdd o dir, coed cysgodol neu wely blodau yn werthfawr iawn. Gallwch greu hafan fach yng nghanol prysurdeb ardal drefol a hynny ar falconi, iard neu mewn man cymunedol. Bydd yr adnodd hwn yn trafod pam mae mannau gwyrdd trefol mor bwysig, yn rhoi rhai awgrymiadau gwych i chi ar sut i gychwyn arni a llawer mwy.

## Pam mae gerddi mewn trefi a dinasoedd mor bwysig.

Gall gerddi, mannau gwyrdd a pharciau helpu mewn ffyrdd na fyddai rhywun yn eu hystyried o bosibl, a gydag 85% o boblogaeth y DU yn byw mewn tref neu ddinas, maen nhw'n rhan hanfodol o'n cymdogaeth.

Mae gwrychoedd, coed a lleiniau mewn gerddi yn gartref hollbwysig i fywyd gwyllt, boed yn ddraenogod, adar, llwynogod neu'n drychfilod. Profwyd fod bod allan yn yr awyr agored yn gwella llesiant pobl ac mae treulio prynhawn yn palu, plannu a garddio yn dda i'ch iechyd corfforol hefyd.

Mae coed a gwrychoedd yn darparu man cysgodol pwysig hefyd – drwy greu amgylchedd oer yn ystod tywydd poeth. Gan fod llawer o arwynebedd caled fel ffyrdd, palmentydd a rhodfeydd mewn trefi a dinasoedd gall gerddi a pharciau helpu i atal llifogydd mewn trefi.

Gall pob darn bach o natur helpu. Bydd hyd yn oed bocs blodau neu berlysiau ar y silff ffenestr yn denu pryfed peillio fel gwenyn, yn dal dŵr glaw ac yn prosesu carbon deuocsid.





# 10 awgrym gwych ar gyfer Garddio Trefol

1. **Defnyddiwch y pethau sydd gennych:** Edrychwch yn yr ailgylchu am focsys madarch y gellir eu defnyddio ar gyfer eginblanhigion, berwr neu egin pys. Gellir defnyddio caniau tun (yn ddiogel) i greu potiau blodau neu westy pryfed hefyd.
2. **Trefnwch i gyfnewid hadau.** Mae digon o hadau mewn pecyn hadau fel arfer i allu eu defnyddio dwy neu dair gwaith, yn arbennig os oes gennych ardd fach neu falconi. Dylech ystyried cynnal sesiwn cyfnewid hadau neu eginblanhigion os oes gennych fwy na'r hyn sydd ei angen arnoch chi. Drwy wneud hynny gallwch dyfu amrywiaeth ehangach o blanhigion a chadw'r costau'n isel.
3. **Rhowch domwellt yn eich gwelyau plannu.** Bydd gorchuddio'r ddaear o amgylch eich planhigion gyda thomwellt o ddail, rhisgl, gwellt neu hyd yn oed wlân dafad yn lleihau anwedd dŵr o'r pridd ac yn rheoli ei dymheredd, ac ni fydd rhaid ei ddyfrio mor aml. Gall hefyd atal rhai plâu fel malwod!
4. **Chwiliwch am ardd gymunedol i wneud gwaith gwirfoddol.** Mae gan yr RHS gronfa ddata – www.rhs.org.uk/get-involved/find-a-group
5. **Wedi cael digon ar dorri'r lawnt?** Dylech ystyried hau blodau gwyllt – dechreuwch gyda Mai Dim Torri Gwair neu gallwch droi lawnt yn wely blodau.
6. **Casglwch ddŵr glaw mewn casgen ddŵr neu system ddyfrhau.** Bydd rhai cwmnïau dŵr yn rhoi casgenni dŵr am ddim neu'n rhoi cymhorthdal felly gofynnwch i'ch darparwr lleol.
7. **Allwch chi newid unrhyw balmant neu arwynebedd am blanhigion neu flodau gwyllt?** Bydd hyn nid yn unig yn helpu bywyd gwyllt ond hefyd yn helpu i amsugno dŵr glaw ac atal llifogydd fflach, a bydd rhoi planhigion a llwyni yn lle plamentydd yn helpu'r amgylchedd.
8. **Tyfwch eich planhigion hun.** Os ydych yn awyddus iawn i dyfu eich planhigion hun ond heb ddigon o le, chwiliwch am randir. Y cam cyntaf fyddai gofyn i'ch cyngor lleol neu randir lleol. Efallai y bydd rhestr aros.
9. **Planwch blanhigion parhaol.** Er bod planhigion lliwgar mewn gwelyau yn edrych yn hardd, mae'n well yn ariannol ac yn well i'r blaned i dyfu planhigion parhaol, gan eu bod yn dychwelyd o flwyddyn i flwyddyn. Planhigion unflwydd yw planhigion fel blodau haul neu gosmos a phlanhigion parhaol yw bysedd y cŵn, lafant a theim sy'n marw yn y gaeaf ond yn dychwelyd y flwyddyn ganlynol.
10. **Chwliwch am eich Llyfrgell Pethau neu Sied Rannu leol.** Gan fod peiriannau torri gwair, gwellau a pheiriannau palu yn ddrud i'w prynu ac nid oes gan lawer ohonom le i gadw offer gardd, gallech chwilio am eich gwasanaeth rhannu cymunedol lleol.



## Ysgogi sgwrs ac archwilio profiadau synhwyraidd.

Fel grŵp gallech rannu syniadau am y tir neu barciau yn eich cymuned y gellid eu gwella. Bydd llawer o gynghorau yn croesawu ceisiadau gan grwpiau cymunedol i dacluso hen welyau a lleiniau blodau.

Ewch am dro i ardd gymunedol, rhandir, RHS neu Ardd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol i weld beth maen nhw'n ei dyfu, ac i drafod pa flodau a phlanhigion sy'n denu pryfed peillio.



## Ynglŷn â'r adnodd hwn

Yn awyddus i ddechrau garddio? Mae gennym bopeth sydd ei angen arnoch chi, hyd yn oed os mai dim ond silff ffenestr neu falconi sydd gennych.

Beth am lawrlwytho'r adnodd perlysiau ar gyfer y silff ffenestr:
**www.fflgettogethers.org/cymraeg/cymryd-rhan/adnoddau/adnoddau-ar-gyfer-tyfu-bwyd/perlysiau/**

Neu beth am ddysgu am lwyddiant grŵp Fearon Hall gyda'u gardd gymunedol:
**www.fflgettogethers.org/cymraeg/cymryd-rhan/adnoddau/adnoddau-ar-gyfer-tyfu-bwyd/ysbrydoliaeth-i-dyfu-bwyd-mewn-mannau-trefol/**


**www.fflgettogethers.org/cymraeg/**

@SAfoodforlife | #FFLGetTogethers | #NationalLottery

CRONFA GYMUNEDOL COMMUNITY FUND

DEWCH AT EICH GILYDD
Dod â phobl ynghyd drwy fwyd

Soil Association